Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

Tel: +44 (0)800 052 0145
Web site:
www.dwrcymru.com

Ffôn: +44 (0)800 052 0145
Safle gwe:
www.dwrcymru.com

Trwy e-bost: petitions@senedd.wales

Annwyl Gadeirydd,

**Deiseb P-06-1521: Rhowch yr hawl i drigolion cartrefi mewn parciau gael mesurydd dŵr**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2025 mewn perthynas â Deiseb P-06-1521: Rhowch yr hawl i drigolion cartrefi mewn parciau yng Nghymru gael mesurydd dŵr.

Gallaf gadarnhau nad ydym wedi cyflwyno hysbysiad ffurfiol o dan Adran 75 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("y Ddeddf"). Fel y mae'r deisebydd yn ei nodi, mae Adran 75 o'r Ddeddf yn ein galluogi ni i gymryd camau i ddatrys gollyngiad ar gyflenwad preifat, lle nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am y cyflenwad yn gwneud hynny, ac adfer costau'r gwaith. Ni fyddai'n ymarferol nac yn ddarbodus i ni gamu i mewn a thrwsio pob gollyngiad preifat gan ddefnyddio'r pŵer yma. Yn yr achos o dan sylw, buom yn glir fod angen datrys y gollyngiad, ac er na chafodd ei ddatrys o fewn yr amserlen a bennwyd, roeddem ni'n deall fod maint y safle'n golygu y gallai'r broses o ddod o hyd i'r gollyngiad a'i drwsio fod yn gymhleth ac yn ddrud.

Nid ydym wedi dwyn erlyniad am y dŵr a gollwyd yn sgil y gollyngiad. Mae pwerau statudol gennym i wneud hyn yn unol ag Adran 73 o'r Ddeddf, o dan amgylchiadau lle mae'r dŵr a gyflenwir yn cael ei wastraffu, ei gamddefnyddio neu ei ddefnyddio'n ddiangen. Mae'r drosedd yn amodol ar y profion perthnasol a bennir yn Adran 73 o'r Ddeddf, lle disgrifir yr amddiffyniadau perthnasol hefyd. Byddwch chi'n deall fod penderfyniad i erlyn yn fater difrifol, ac yn un y byddwn ni'n ei ystyried yn ofalus ac yn annibynnol ar ddylanwad cwsmeriaid. Rydyn ni'n ystyried amgylchiadau pob achos, gan gynnwys gweithredoedd y darpar-ddiffynnydd wrth fynd i'r afael â'r gollyngiad.

Mae perchennog/deiliad pob eiddo sy'n gysylltiedig â chyflenwad a rennir yn gyfrifol am ei gynnal a'i drwsio, ac fel y defnyddiwr/wyr, gellir gofyn iddynt ddatrys gollyngiadau, a gellir erlyn perchenogion neu ddeiliaid eiddo perthnasol o dan Adran 73 o'r Ddeddf (sy'n pennu manylion y drosedd berthnasol). Rhoddwyd ystyriaeth i hyn wrth wneud ein penderfyniad, ynghyd â'r ffaith fod perchennog y safle wedi ymgysylltu â'r broses ac wedi datrys y broblem yn y pen draw, sy'n rhywbeth nad ydym yn ei weld mewn nifer o achosion.

Yn gywir

Rebecca Price

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid

glas

Welsh Water is owned by Glas Cymru – a 'not-for-profit' company.
Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'.

We welcome correspondence
in Welsh and English.

Dŵr Cymru Cyf, a limited company registered in Wales no. 2366777. Registered office: Pentwyn Road Nelson, Treharris, Mid Glamorgan CF46 6LY.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn
y Gymraeg neu yn Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.